Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

2024 Adroddiad Blynyddol

## Croeso gan ein Cadeirydd, Dr Siân George

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2024 Porthladd Aberdaugleddau. Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf, a chyfle i mi gyflwyno fy hun i'n holl randdeiliaid.

Un o'r cwestiynau cyntaf y mae llawer o bobl wedi'u gofyn i mi ers i mi ymuno ag Awdurdod y Porthladd yw "Beth wnaeth eich ysgogi i ymuno â Phorthladd Aberdaugleddau?" Un o'r prif ysgogiadau oedd yr her broffesiynol o arwain Bwrdd prif borthladd ynni'r DU ar yr adeg hynod gyffrous hon, ond roedd fy nghefndir personol yn ysgogiad hefyd.

Cefais fy magu yn yr Ynysoedd Heledd Allanol. Mae arfordiroedd garw a chymunedau gweithgar Sir Benfro, sy'n ymdrechu i fyw a gwneud bywoliaeth ar gyrion Ewrop, yn fy atgoffa o gartref. Mae yna air yng Ngaeleg yr Alban, '*dùthchas*', sy'n disgrifio'r teimlad o berthyn i – a bod yn gyfrifol am – le, ei bobl a'i ddiwylliant. Nid oes cyfieithiad uniongyrchol yn Saesneg, ond mae'r Cymry yn siarad am *gynefin* yn yr un modd. Efallai mai dyma'r rheswm pam y ces i fy ysbrydoli gan y ffaith bod Aberdaugleddau yn borthladd ymddiriedolaeth, wedi'i angori yn ei gymuned leol. Mae'r statws hwn yn golygu bod ein llwyddiant masnachol yn gallu helpu i feithrin manteision economaidd-gymdeithasol rhanbarthol, yn ogystal â gwarchod a chadw pobl yn ddiogel ar Ddyfrffordd hardd Aberdaugleddau.

Fe wnaethom gofnodi elw o £1.9m ar gyfanswm refeniw o £43.2m, sy'n fwy na'r hyn a gofnodwyd yn 2023 diolch i incwm ychwanegol o'n busnesau newydd yn y sector lletygarwch, er gwaethaf gostyngiad bach mewn lefelau morgludiant.

Am y tro cyntaf, mae bron i hanner ein refeniw yn deillio o incwm amrywiol o weithgareddau y tu allan i'n rôl forgludo draddodiadol. Roedd enillion o'n busnesau lletygarwch a thwristiaeth yn fwy na'r enillion o'n terfynell fwyaf i gwsmeriaid. Mae arallgyfeirio ein buddsoddiadau wedi bod yn gam pwysig i ni. Fel y gwelwyd eleni, maen nhw'n cyfrannu at berfformiad ariannol mwy sefydlog ac yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i fuddsoddi yn anghenion cwsmeriaid craidd ein sector ynni yn ystod blynyddoedd tawel. Bydd cefnogi anghenion ein cwsmeriaid yn ffocws allweddol bob amser.

Roedd mewnforion olew a nwy ychydig yn is eleni; ond fe wnaeth gweithgareddau sy'n gysylltiedig â strategaethau datgarboneiddio – o ddatblygiadau mewn hydrogen i lansio'r Porthladd Rhydd Celtaidd – ddwysáu. Mae hyn yn dangos sut y bydd esblygiad ynni parhaus yn creu cyfleoedd economaidd i'n rhanbarth.

Mae gen i gefndir cadarn ym maes ynni adnewyddadwy morol, sy'n golygu fy mod i mewn lle da i gefnogi Porthladd Aberdaugleddau wrth i ni ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn cyfleoedd ynni newydd a chyfleoedd ynni sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg iawn. Heddiw, rhaid i ni barhau i wneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud: darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid, datblygu gallu a gwytnwch yn ddiogel, ac arallgyfeirio yn hyderus mewn ffordd sy'n cryfhau ein busnes a'r busnesau a'r cymunedau o'n cwmpas. Dyma'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn barod i ymateb i ddatblygwyr sydd am fanteisio ar yr holl ynni adnewyddadwy sydd ar gael yn y Môr Celtaidd.

Mae ymdrechion cydweithredol y tîm wedi bod yn wych eleni. Diolch i ymdrechion y tîm, rydym wedi cael ymweliadau gan Ddirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weinidog Cymru, i hyrwyddo cyfleoedd y dyfodol yn y Porthladd. Daethant i agoriad ffurfiol cyfleuster Ardal Forol Doc Penfro, gan gynnwys y llithrfa enfawr newydd, a ariannwyd yn rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Dyma un enghraifft yn unig o lwyddiant y tîm wrth godi proffil ein rhanbarth a hyrwyddo ei gyfraniad at gyflawni esblygiad ynni dros y degawdau nesaf. Rydym yn derbyn cefnogaeth gyson gan randdeiliaid lleol hefyd, yn enwedig ein cydweithwyr yng Nghyngor Sir Penfro.

Fel aelod newydd o'r tîm, mae gweledigaeth ac egni pob aelod o staff yn y Porthladd wedi creu argraff fawr arnaf. Rwy'n ddiolchgar iawn am eu croeso cynnes. Hefyd, rwy'n gwerthfawrogi cymorth caredig fy rhagflaenydd Chris Martin i'm rhoi ar ben ffordd.

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol cyntaf, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fy mlwyddyn lawn gyntaf ym Mhorthladd Aberdaugleddau, gan gysylltu â'r holl bobl a busnesau sy'n helpu i wneud yr ardal hon mor arbennig.